Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Trac
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UE

**YMATEB I YMGYNGHORIAD YNGHYLCH STRATEGAETH RHWYDWAITH BYSIAU A CHLUDIANT CYMUNEDOL CANOLBARTH CYMRU (Trac)**

Annwyl Syr/Fadam

Diolch am roi'r cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wneud sylwadau ar Strategaeth Rhwydwaith Bysiau a Chludiant Cymunedol ddrafft Trac. O 1 Ebrill 2013, cyfunwyd gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru o dan Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein bwriad yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae CNC yn croesawu'r Strategaeth hon, sy'n galluogi integreiddio pellach wrth gynllunio a gweithredu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae CNC yn cefnogi'r mentrau hynny sy'n blaenoriaethu, darparu, hybu, integreiddio a gwella ffyrdd cynaliadwy o deithio. Felly, rydym yn gwerthfawrogi bwriad y Strategaeth, sef nodi canlyniadau sy'n flaenoriaeth, gan sicrhau bod y buddsoddiad yn talu ar ei ganfed.

Er ein bod yn croesawu'r Strategaeth yn fras, mae gennym rai sylwadau a fydd yn ddefnyddiol i chi gobeithio.

Os oes angen eglurhad ynglŷn ag unrhyw un o'r sylwadau, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â Helen Fletcher, helen.fletcher@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Yn gywir

Tim Jones
Cyfarwyddwr Gweithrediadau, y Gogledd a'r Canolbarth

**SYLWADAU MANWL AR STRATEGAETH RHWYDWAITH BYSIAU A CHLUDIANT CYMUNEDOL RHANBARTHOL TraCC**

### 1.4 Y berthynas â Pholisïau a Strategaethau Rhanbarthol

Byddai CNC yn falch o weld y Strategaeth hon a'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael eu hintegreiddio o fewn rhanbarth TraCC. Mae angen i Gynlluniau Datblygu Lleol alinio safleoedd i'w datblygu gyda rhwydweithiau teithwyr sydd eisoes yn bodoli, ynghyd â chynllunio i wella cyfleusterau ble mae hygyrchedd cludiant teithwyr yn wael ar hyn o bryd. Mae'r math yma o ddatblygu integredig yn hanfodol er mwyn lleihau'r galw am deithio, er mwyn helpu i newid ymddygiad a chefnogi'r newid moddol o ddefnyddio'r car i ddefnyddio cludiant teithwyr.

### 1.5.1 Ymgynghoriad

Os nad yw eisoes yn rhan o'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid, awgrymwn y byddai cynnwys Byrddau Gwasanaethau Lleol perthnasol mewn trafodaethau ynglŷn â datblygiad y Strategaeth yn ddefnyddiol dros ben. Mae'r Byrddau, sy'n cynnwys arweinwyr sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector allweddol, yn canolbwyntio ar gyflawni gwasanaethau cyhoeddus ac mae medru defnyddio trafnidiaeth yn aml yn thema allweddol. Er enghraifft, mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion yn rhoi blaenoriaeth i 'fynediad at wasanaethau'. Hefyd, cafodd hygyrchedd trafnidiaeth ei drafod yn helaeth yn ystod datblygiad cynllun Powys Yn Un.

### 2.1.2 Gweledigaeth

Mae CNC yn croesawu'r weledigaeth ar gyfer y rhwydwaith fysiau a chludiant cymunedol a'r bwriad i geisio lleihau effaith teithio ar yr amgylchedd yn enwedig.

### 2.2.3 Canlyniad 1 – Gwasanaethau allweddol a chyfleusterau hygyrch

Nid yw'n glir beth sy'n rhan o'r 'gwasanaethau allweddol', er eu bod yn cynnwys addysg, hyfforddiant, swyddi a gofal iechyd. Byddai CNC yn croesawu ehangu cwmpas 'gwasanaethau allweddol' i gynnwys ystyried blaenoriaethu trafnidiaeth i leoliadau sy'n cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer hamdden awyr agored. Mae gan gludiant teithwyr rôl amhrisiadwy yn gwella mynediad i gefn gwlad, gyda'r potensial wedyn i wella iechyd a lles o ganlyniad, fel y cydnabyddir yn strategaeth *Creu Cymru Egnïol*[1] Llywodraeth Cymru. Gall cysylltu trafnidiaeth gyhoeddus â hamdden awyr agored hefyd gyfrannu at fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol, gan helpu aelwydydd heb gar i fwynhau manteision yr amgylchedd naturiol.

### 2.2.3 Canlyniad 3 – Rhwydweithiau wedi'u hintegreiddio

Fel rhan o integreiddio'r rhwydwaith, byddai CNC yn croesawu'r cyfle i fod yn rhan o'r drafodaeth ynglŷn â llwybrau newydd sy'n cysylltu â chyfleusterau hamdden awyr agored lle bo'n briodol. Gall cyfleoedd hamdden awyr agored fod â rôl allweddol yn y gwaith o gyflawni agenda iechyd a lles meddyliol a chorfforol Llywodraeth Cymru. Mae cyfleoedd o'r fath yn cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus, Llwybrau Cenedlaethol, Llwybr Arfordir Cymru, llwybrau beicio, gwarchodfeydd natur a chanolfannau ymwelwyr. Er enghraifft, mae pobl yn gweld y bws tymhorol i dwristiaid sy'n cysylltu pentrefi arfordirol yng Ngheredigion - y Cardi Bach – fel caffaeliad, yn enwedig y sawl sy'n cerdded Llwybr Arfordir Cymru.

**3.6.5 Cyfnewidfeydd**

Mae CNC yn cefnogi mynediad a pharcio ar gyfer beiciau mewn cyfnewidfeydd bysiau. Byddem yn annog integreiddio yn yr achos hwn gyda Bil Teithio Llesol (Cymru), sy'n ceisio annog awdurdodau lleol i wella cyfleusterau a llwybrau ar gyfer beicwyr (a cherddwyr).

**Sylwadau ychwanegol**

1) Byddai CNC yn croesawu pe bai adran ar faterion amgylcheddol a chyfleoedd i wella yn cael ei chynnwys. Gallai cyfleoedd o'r fath gynnwys targedau ar gyfer cerbydau i leihau allyriadau a hyfforddiant eco-yrru, gyda'r naill a'r llall yn cefnogi blaenoriaeth y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Hwyrach bod cyfleoedd pellach hefyd ar gyfer seilwaith - goleuadau carbon isel, ailgylchu dŵr llwyd a chynnwys 'seilwaith gwyrdd', cynlluniau sy'n gweithio gyda'r amgylchedd naturiol, ac sy'n fuddiol iddo.
2) Byddai'n fuddiol cynnwys gwybodaeth ynglŷn â bod yn rhan o unrhyw waith partneriaeth i hybu newid ymddygiad a newid moddol o ddefnyddio'r car i ddefnyddio'r bws.

1. *Creu Cymru Egnïol*, Llywodraeth Cymru 2011.